Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Ffordd Holton**
**Y Barri**
**CF63 4RU**

**Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/09/2013**

## Cyd-destun

Mae Bro Morgannwg yn Ne Cymru. Cyfanswm y boblogaeth yw 126,679. Ym Mro Morgannwg, mae 10.8% o bobl dros dair oed yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19.0%.

O'r boblogaeth sy'n gweithio ym Mro Morgannwg, nid oes gan 6.6% ohonynt unrhyw gymwysterau, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 10.6%. Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 13.7%, sy'n is nag 19.3% ar gyfer Cymru gyfan. Y lefel hon o gymhwyster yw'r pumed isaf yng Nghymru. Dim ond 6% o'r 78 o ardaloedd ym Mro Morgannwg sydd yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 215 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod ym Mro Morgannwg. Roedd 115 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.6% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 4.2%.

### Cyd-destun ariannol

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Bro Morgannwg yn 2012-2013 oedd £1,610 i bob pen o'r boblogaeth. Mae AGS y Cyngor i bob pen o'r boblogaeth wedi bod yn gyson islaw cyfartaledd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf.

Yn 2012-2013, gosododd yr awdurdod ei gyllideb addysg, heb grantiau, ar £93.05 miliwn. Mae hyn yn agos iawn at yr elfen addysg dybiannol o fewn yr AGS ac mae'n cynrychioli £4,430 fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £4,874 fesul disgybl. Y gyllideb addysg net fesul disgybl ym Mro Morgannwg yw'r isaf yng Nghymru. Serch hynny, mae'r gyllideb ar gyfer 2012-2013 yn cynrychioli cynnydd o 1.2% ar 2011-2012, o gymharu â chynnydd o 0.2% yn genedlaethol.

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod yr awdurdod yn dirprwyo 84.2% o'i wariant cyllidebol gros ysgolion i ysgolion. Hon yw'r gyfradd ddirprwyo uchaf yng Nghymru. Serch hynny, y cyllidebau dirprwyedig cyfartalog ym Mro Morgannwg yw £3,813 fesul disgybl mewn ysgolion cynradd – sef yr isaf ond un yng Nghymru – a £4,190 fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd, sef yr isaf yng Nghymru.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Digonol**

Bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 4, wrth ystyried prydau ysgol am ddim, yn debyg i gyfartaledd Cymru, neu'n uwch;
- mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn debyg i gyfartaledd Cymru o gymharu â phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim;
- mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- mae canran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg ôl-16 yn gymedrol pan ystyrir y lefel isel o amddifadedd;
- mae cymorth da ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae niferoedd isel o leoedd dros ben yn yr awdurdod ac mae ganddo gynlluniau addas ar waith i leihau'r rhain ymhellach.

**Fodd bynnag:**

- mae perfformiad ysgolion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, o ystyried prydau ysgol am ddim, islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru;
- mae lefel yr her i ysgolion wedi bod yn anghyson, sy'n golygu nad yw rhai ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu nodi'n ddigon cyflym gan yr awdurdod neu wasanaeth gwella ysgolion y consortia rhanbarthol;
- mae un ysgol gynradd wedi aros yn y categori mesurau arbennig am ddwy flynedd a thair ysgol uwchradd wedi cael eu rhoi mewn categorïau monitro anffurfiol gan Estyn dros y 12 mis diwethaf; ac
- nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu lles wedi cael eu datblygu'n llawn.

**Gallu i wella: Digonol**

Mae rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn gwybod beth yw'r heriau pwysig sy'n wynebu addysg yn yr awdurdod yn dda, ac maent wedi ymrwymo i wella cyflymder y newid;
- mae gan yr awdurdod brosesau boddhaol ar gyfer hunanarfarnu a rheoli perfformiad; ac
- mae gan yr awdurdod lleol rôl effeithiol mewn partneriaethau strategol ym Mro Morgannwg.

**Fodd bynnag:**

- roedd perfformiad wedi'i feincnodi ym mhob cyfnod allweddol yn wannach yn 2012 nag ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol;

- nid yw'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion a diffygion eraill a nodwyd o arolygiad blaenorol Estyn yn 2010;
- ni chaiff gwelliant ei gynllunio mewn ffordd gyson, er enghraifft wrth ddefnyddio targedau mesuradwy, cerrig milltir ac adnoddau a nodwyd; ac
- mae arfarniad yr awdurdod o ganlyniadau gwasanaethau a mentrau a'u trefniadau ariannu yn anghyson, felly mae'n anodd llunio barnau ar werth am arian y rhain.

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3

A2 Gwella trylwyredd a lefel yr her a roddir i ysgolion ynglŷn â'u perfformiad ac ansawdd yr arweinyddiaeth

A3 Defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella ysgolion sy'n tanberfformio

A4 Gwneud yn siŵr bod cynllunio ar gyfer gwella yn drylwyr ac yn gyson ar draws yr holl wasanaethau

A5 Sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer arfarnu deilliannau mentrau a'u bod yn dangos gwerth da am arian

A6 Cryfhau trefniadau ar gyfer monitro ac arfarnu lles plant a phobl ifanc

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd awdurdod lleol Bro Morgannwg yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn disgyn i'r categori gweithgarwch dilynol ac y bydd angen iddo gael ei fonitro gan Estyn.  Bydd dyddiad, ffocws a natur y gweithgarwch monitro hwn yn cael ei bennu gan Estyn maes o law.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Bro Morgannwg sydd â'r gyfradd isaf ond pump o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru yn 2012, roedd perfformiad ysgolion ychydig uwchlaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen, ac islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2 lle nad oedd digon o ysgolion yn y 25% uchaf. Roedd perfformiad yn sylweddol islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 gyda hanner yr ysgolion uwchradd yn y 25% isaf a thri chwarter ohonynt islaw'r cyfartaledd.

Am y tair blynedd diwethaf, mae Bro Morgannwg wedi bodloni neu ragori ar feincnodau cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2012, ni lwyddodd i fodloni meincnod cyfnod allweddol 3 ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn dda ar dri o bum prif ddangosydd Llywodraeth Cymru, er bod gormod o ysgolion yn y 25% isaf o ran y ddau ddangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Roedd perfformiad ym mhob cyfnod allweddol yn wannach yn 2012 nag ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 lle'r oedd pob un o'r pum dangosydd wedi bod ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yn 2010 a 2011.

Yn 2012, bu gwelliant sylweddol yng nghanran y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig. Mae'n well na chyfartaledd Cymru erbyn hyn.

Roedd cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd cynnydd o gyfnodau allweddol 2 a 3 yn debyg i'r cyfartaledd ar y cyfan.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yng nghyfnod allweddol 2 yn cynyddu ac mae wedi bod yn fwy na'r cyfartaledd ledled Cymru am y tair blynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch o ran rhyw yn llai na chyfartaledd Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn wedi amrywio o amgylch cyfartaledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i berfformiad merched ar rai mesurau. Mae safonau grwpiau penodol eraill o ddisgyblion, gan gynnwys plant sy'n cael gofal, grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyd-fynd â disgwyliadau ar y cyfan. Mae disgyblion sy'n fwy abl yn perfformio'n well na'r disgwyl o gymharu â'r rhai mewn ysgolion tebyg ledled Cymru ar y cyfan, heblaw mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3.

Yn 2012, roedd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd ac islaw'r cyfartaledd mewn ysgolion uwchradd. Roedd perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn gymedrol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd.

Ni roddodd yr awdurdod ddigon o wybodaeth am oedrannau darllen i ddangos lefelau llythrennedd swyddogaethol disgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd. Mae disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn gwneud cynnydd priodol yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da i wybod p'un a ydynt yn cynnal y cynnydd hwn dros gyfnod hwy.

Cyfyngedig yw'r dadansoddiad sydd gan yr awdurdod lleol o gymwysterau a enillwyd o ddysgu nad yw'n ffurfiol a dysgu anffurfiol. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol trwy'r gwasanaeth ieuenctid wedi cynyddu, er ei bod islaw cyfartaledd Cymru.

**Lles: Digonol**

Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn debyg i gyfartaledd Cymru o gymharu â chyfartaledd ysgolion tebyg ledled Cymru o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim ar gyfer 2012.

Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ymhlith yr isaf yng Nghymru. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol o ysgolion cynradd yn y tair blynedd diwethaf, ac ychydig iawn o waharddiadau a fu o ysgolion uwchradd. Mae nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae canran y dysgwyr sy'n aros mewn addysg ôl-16 yn gymedrol pan ystyrir lefel isel yr amddifadedd. Mae cyfran y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) ar ôl 16 oed ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru, sy'n llawer uwch nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried y lefelau cymharol isel o amddifadedd ym Mro Morgannwg drwyddi draw. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon wedi gwella'n gyson yn ddiweddar.

Mae cyfran y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn llawer gwell na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Er bod cyfran y disgyblion sy'n ymgymryd â gweithgareddau corfforol yn cynyddu, mae cyfraddau cyfranogi yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer yr holl ddangosyddion. Mae'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaethau cwnsela ac eirioli yn yr ysgol yn dda.

Mae pobl ifanc, gan gynnwys y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, yn cyfrannu'n dda at wneud penderfyniadau ar lefelau lleol a strategol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol**

Mae'r awdurdod yn cefnogi ac yn herio'i ysgolion yn ddigonol ar y cyfan. Mae swyddogion yn dilyn proses glir a strwythuredig ac yn defnyddio ystod eang o ddata ysgol yn dda i ganolbwyntio ar y materion allweddol mewn ysgolion. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn categoreiddio ysgolion yn briodol ac yn cytuno ar lefelau addas o gymorth. O ganlyniad, mae prosesau gosod targedau ysgolion a'r awdurdod lleol yn dda ac yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ysgolion.

Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu darpariaeth ac arweinyddiaeth mewn ysgolion yn ddigon da ac maent yn dibynnu'n ormodol ar ddata perfformiad ysgolion i gategoreiddio ysgolion.  Mae gormod o amrywiad yn ansawdd gwaith swyddogion ac ni chaiff ansawdd eu gwaith ei sicrhau yn ddigon cadarn i wneud yn siŵr eu bod yn herio ysgolion yn gyson.  O ganlyniad, ni chaiff rhai ysgolion sy'n tanberfformio eu nodi'n ddigon cyflym gan yr awdurdod neu gan y consortia rhanbarthol y mae'r Fro yn perthyn iddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn monitro pwyntiau gweithredu cytûn yn agos trwy ymweliadau swyddogion ac mae'n cydlynu cymorth addas pan fydd angen.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o adroddiadau, nid yw pwyntiau gweithredu'n eglur ac nid ydynt yn cynnwys graddfeydd amser.  Mewn rhai achosion, nid yw cymorth yn gweddu i anghenion pennaf yr ysgol dan sylw yn briodol.

Dros y cylch arolygu presennol, roedd angen gweithgarwch dilynol ar gyfran isel o ysgolion ar ôl arolygiadau.  Fodd bynnag, mae un ysgol gynradd wedi aros yn y categori mesurau arbennig am ddwy flynedd ac mae tair o'r wyth ysgol uwchradd wedi cael eu rhoi mewn categorïau monitro gan Estyn dros y 12 mis diwethaf.

Mae'r awdurdod yn arwain ac yn cefnogi ystod o fentrau defnyddiol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol.  Mae rhaglenni cymorth addas i wella medrau sylfaenol disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, a chymorth da ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

Cyfyngedig yw'r datblygiad proffesiynol ar gyfer penaethiaid presennol a'u timau arweinyddiaeth, er bod yr awdurdod yn rhoi cymorth boddhaol i arweinwyr newydd mewn ysgolion.  Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn gyson o ran y ffordd y caiff ei gyflwyno.  Mae swyddogion yn darparu sesiynau hyfforddi a datblygu da ar gyfer llywodraethwyr ysgol.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llywodraethwyr yn cael digon o hyfforddiant i'w cefnogi i arfarnu a herio ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn eu hysgolion.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol:  Da**

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.  Mae wedi llunio strategaeth ddefnyddiol ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae wedi cryfhau ystod y ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael i ddisgyblion hefyd trwy wella gallu a medrau staff mewn ysgolion yn ogystal â darparu cymorth allymestyn effeithiol.  Mae deilliannau hyn yn cynnwys disgyblion sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn cael cymorth arbenigol gan ysgol arbennig leol.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau nifer y datganiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig dros y pedair blynedd diwethaf.  Mae nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn isel ac nid yw'r un ohonynt wedi cael eu dwyn ymlaen i wrandawiad llawn.  Dywed rhieni eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r cymorth y mae'r awdurdod yn ei roi i'w plant.

Mae gan yr awdurdod lleol berthynas dda gydag ysgolion, ac mae wedi'i defnyddio i ddatblygu darpariaeth sylfaen adnoddau i ddisgyblion ag anghenion penodol mewn lleoliadau prif ffrwd.

Mae'r awdurdod wedi dechrau dirprwyo adnoddau ariannol i ysgolion er mwyn iddynt reoli'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol. O ganlyniad, caiff ychydig llai na hanner y disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae pob ysgol yn deall y rhesymau dros ddyrannu a rhoi'r gorau i gynnig cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion unigol.

Rhoddir cyfleoedd da a chynhwysfawr i staff ysgol ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol. Caiff cyrsiau eu gwerthfawrogi'n fawr gan staff ac maent wedi cyfrannu'n dda at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion.

Mae gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Maent yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn dda ac yn monitro eu cynnydd yn effeithiol.

O ganlyniad i ailstrwythuro'r gwasanaeth yn ddiweddar, mae cyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol a'r tîm gwella ysgolion. Mae gan yr awdurdod ystod eang o ddata yn ymwneud â deilliannau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn cael ei ddadansoddi ddigon ar y cyfan, ac o ganlyniad, nid yw'n glir pa mor dda y mae'r awdurdod yn defnyddio data i gefnogi a herio ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu fforwm rhieni yn ddiweddar, sydd wedi cael hyfforddiant a gwybodaeth dda am ystod o faterion perthnasol yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywed rhieni eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn. Fodd bynnag, maent wedi'i chael yn anodd cael gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall sut mae'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio a pha gymorth y maent yn debygol o'i gael gan ysgol eu plentyn.

### Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol

Mae trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer monitro ac arfarnu lles yn foddhaol ar y cyfan, ond nid yw agweddau wedi'u datblygu'n llawn eto. Mae'r awdurdod lleol wrthi'n datblygu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Lles mewn Addysg i alluogi swyddogion i gydlynu gwasanaethau sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol a lles yn fwy effeithiol.

Mae'r awdurdod yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr sy'n agored i niwed yn dda. Mae hyn yn cynnwys cymorth effeithiol ar gyfer plant sy'n cael gofal a phecynnau wedi'u teilwra ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg.

Mae ystod eang o ddarpariaeth dda ar gyfer dysgwyr y mae angen cymorth ymddygiadol arnynt. Mae'r awdurdod yn darparu hyfforddiant priodol ar reoli ymddygiad ac ataliad corfforol.

Mae presenoldeb wedi gwella'n ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw dull yr awdurdod o ddadansoddi data presenoldeb a gosod targedau ar gyfer ysgolion yn ddigon trylwyr. Mae'r awdurdod yn casglu ystod dda o ddata ond nid yw'n ei ddadansoddi nac yn ei ddefnyddio'n ddigon da i lywio targedau ac arfarnu effaith gwaith swyddogion awdurdodau lleol. O ganlyniad, nid ydynt yn gwybod pa fentrau yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth wella presenoldeb.

Mae ysgolion a swyddogion wedi cydweithio'n dda i leihau gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol.

Nid yw mentrau'r awdurdod i gadw plant a phobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi bod yn ddigon effeithiol. Mae'r awdurdod yn cydnabod hyn ac mae wrthi'n datblygu strategaeth newydd mewn partneriaeth â'r holl bobl berthnasol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn ymgysylltu'n dda â llawer o bobl ifanc ac yn darparu ystod eang o raglenni effeithiol. Mae gwaith partneriaeth da gyda'r gwasanaeth troseddu ieuenctid i gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o naill ai ymddieithrio neu fynd i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun unrhyw bryder sylweddol. Mae trefniadau mewn darpariaeth addysg wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar a'u diwygio'n helaeth. Oherwydd y diwygio hwn, mae'r trefniadau adrodd a monitro ar gyfer diogelu mewn ysgolion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddarpariaeth addysg yn disgyn o dan yr un trefniadau monitro, sy'n ei gwneud yn anodd sicrhau bod uwch reolwyr yn cael golwg glir a chyson o ba mor dda yr ymgymerir â gweithdrefnau diogelu ar draws y gyfarwyddiaeth.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Mae niferoedd isel o leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr awdurdod. Er 2010, mae'r awdurdod wedi cau safle un ysgol uwchradd ac wedi cynnal rhaglen o gael gwared ar ystafelloedd dosbarth symudol ac ailddyrannu lleoedd gwag at ddefnydd cymunedol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o dros 1,000 o leoedd. Bydd cynlluniau cytûn ac a ariennir yn llawn, yn unol â'r hyn a amlinellir yn rhaglen yr awdurdod ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion, yn arwain at ragor o ostyngiadau yn holl ysgolion yr awdurdod. Mae'r cynlluniau hyn yn golygu bod yr awdurdod yn ymrwymo i fuddsoddi bron i £75 miliwn yn ei adeiladau ysgol dros y pedair blynedd nesaf. Maent hefyd yn sicrhau bod yr awdurdod yn gallu bodloni'r galw uniongyrchol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn well. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi effaith y galw cynyddol am ddarpariaeth o'r fath yn ddigon trylwyr er mwyn iddo sicrhau y bydd yn gallu bodloni'r galw hwn yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod wedi rhoi systemau priodol ar waith ar gyfer rhagweld niferoedd y disgyblion a'r gofynion am leoedd mewn ysgolion gan ddefnyddio ystod addas o ddata. Mae cynllunio rheoli asedau yn effeithiol ac yn llywio rhaglenni cynnal a chadw'r awdurdod yn dda. Mae hyn yn golygu bod bron pob disgybl yn cael lle yn eu hysgol dewis cyntaf, er bod ganddynt niferoedd isel iawn o leoedd dros ben.

Mae'r awdurdod wedi rhoi trefniadau 'symudiadau rheoledig' ffurfiol a phriodol ar waith. Proses yw symud rheoledig sy'n cael ei chynllunio'n ofalus i drosglwyddo disgybl o un ysgol i'r llall, naill ai i helpu disgybl i ddechrau o'r newydd neu fel strategaeth i gynorthwyo'r disgybl er mwyn ei atal rhag cael ei wahardd yn barhaol. Un o'r prif fanteision yw bod cytundeb ynglŷn â'r nodau a'r meini prawf llwyddo, yn hytrach na dibynnu ar drafodaethau anffurfiol rhwng ysgolion.

Mae'r awdurdod wedi cynnal Asesiad priodol o Ddigonolrwydd Gofal Plant, ac mae'n ei adolygu bob blwyddyn. Mae ystod dda o leoedd meithrin ar gael, a darperir y rhan fwyaf ohonynt mewn ysgolion. Mae'r awdurdod hefyd yn gweithio'n dda gyda lleoliadau'r blynyddoedd cynnar nas cynhelir mewn ardaloedd lle mae'n nodi bod angen darpariaeth ychwanegol. Mae'n cefnogi'r lleoliadau hyn yn effeithiol ac mae'r gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yn darparu ystod addas o wybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae'r awdurdod yn arfarnu safon y ddarpariaeth yn effeithiol ar draws yr holl leoliadau ac mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda ar y cyfan.
Mae ystod dda o wasanaethau cymorth ieuenctid ar gael yn yr awdurdod, sy'n galluogi pobl ifanc i fanteisio ar eu hawliau. Mae cynlluniau gweithredu defnyddiol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid a fabwysiadwyd yn ddiweddar, a dadansoddiad priodol o angen, yn galluogi'r awdurdod i gydlynu'r gwasanaethau hyn yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn gwybod yn dda beth yw'r heriau pwysig sy'n wynebu addysg yn yr awdurdod, ac maent wedi ymrwymo i wella cyflymder y newid. Mae cynlluniau strategol a gweithredol yn adlewyrchu gweledigaeth a blaenoriaethau'r cyngor ac yn blaenoriaethu gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn briodol. Fodd bynnag, nid yw mesurau perfformiad yn ddigon cadarn i wella monitro cynnydd a chyflawniad, na nodi'r effaith ar ddysgwyr yn ddigon da.

Mae uwch aelodau etholedig wedi mynd ati'n briodol i ymgymryd â swyddi llywodraethwyr mewn rhai o'r ysgolion sy'n tanberfformio, er mwyn gwella ansawdd yr her i'r pennaeth a'r tîm arweinyddiaeth. Fodd bynnag, ni chaiff yr arfer o ddefnyddio aelodau etholedig fel llywodraethwyr ysgol ei chydlynu'n ddigon da ar lefel strategol i sicrhau bod pob ysgol yn gwella'n gyson.

Nid yw cofrestr risg strategol yr awdurdod lleol yn cofnodi ystod ddigon eang o risgiau allweddol yn gysylltiedig ag addysg, fel y risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gwasanaeth addysg ar y cyd ar adeg pan mae rhai o ysgolion uwchradd yr awdurdod yn tanberfformio.

Mae'r defnydd a wna'r awdurdod o graffu yn cynnwys adolygu a herio datblygiad polisi, yn ogystal â phenderfyniadau'r cabinet. Fodd bynnag, nid yw'r ffiniau rhwng craffu ar bolisi a chynnig polisi bob amser yn ddigon clir. Gallai hyn beryglu swyddogaeth graffu ar gyfer gwrthrychedd. Mae uwch arweinwyr yn dwyn ysgolion unigol sy'n perfformio'n wael i gyfrif.

Mae adroddiadau swyddogion ar graffu yn cynnwys data perfformiad manwl, gan gynnwys deilliannau ar lefel ysgol unigol. Fodd bynnag, mae dadansoddiadau perfformiad yn dibynnu'n ormodol ar gymariaethau â chyfartaledd Cymru yn hytrach na chymharu ag awdurdodau eraill sydd â phroffil economaidd gymdeithasol tebyg yng Nghymru neu yn Lloegr. Nid yw'r lefel hon o gymharu yn herio'r awdurdod yn ddigon da i anelu am y perfformiad gorau. Mae hyn yn golygu na all craffu ddwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif yn effeithiol.

Mae cynllun strategol yr awdurdod ar gyfer Cymraeg mewn addysg yn addas at ei ddiben ar y cyfan. Mae'r awdurdod lleol yn diwygio agweddau ar y cynllun yn briodol i ystyried y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr awdurdod brosesau boddhaol ar y cyfan ar gyfer hunanarfarnu a rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'n gyson ac nid ydynt bob amser yn dangos cerrig milltir, targedau meintiol a chysylltiadau â chynlluniau corfforaethol a strategol yn ddigon clir. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn briodol ar y cyfan; fodd bynnag, mae rhai adrannau'n rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r holl dybiaethau a wneir, nac yn arfarnu effaith strategaethau'n ddigon da bob amser.

Caiff perfformiad ei reoli'n briodol. Adroddir am berfformiad yn unol â chymaryddion lleol a chenedlaethol wrth dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth bob mis ac wrth bwyllgorau craffu bob chwarter. Mae adroddiadau eithrio yn helpu tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth i fynd i'r afael â blaenoriaethau a thargedau.

Nid yw ansawdd y cynllunio ar draws gwasanaethau a thimau'r awdurdod yn gyson ac nid yw bob amser yn cynnwys targedau meintiol, cerrig milltir ac adnoddau a nodwyd.

At ei gilydd, mae'r awdurdod yn ymgynghori â phenaethiaid, staff a rhanddeiliaid eraill yn briodol gan ddefnyddio arolygon a grwpiau gweithio mewn partneriaeth; fodd bynnag, nid yw'r ymgynghori â phlant wedi'i ddatblygu ddigon. Mae deilliannau diweddar ymgynghoriadau yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygu cabinet ieuenctid, swydd maer ieuenctid a chynllun sy'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder i benaethiaid. Mae'r awdurdod yn cynnal ymgynghoriadau yn briodol yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn ystyried amrywiaeth.

Caiff newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ysgolion eu harfarnu gan fwrdd o swyddogion a chynrychiolwyr penaethiaid, a sefydlwyd i ymateb i'r arolygiad diwethaf yn 2010. Mae bellach yn fforwm defnyddiol i edrych ar wasanaethau eraill a ddarperir ar gyfer ysgolion a gwneud cynigion i fodloni'r galw yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod wedi bod yn rhy araf o ran defnyddio ystod lawn ei bwerau statudol i wella ysgolion sy'n tanberfformio. Fodd bynnag, mae wedi cyflwyno llythyrau o rybudd anffurfiol i ddwy ysgol lle mae perfformiad wedi bod yn destun pryder. Mae bellach yn aros i weld p'un a yw'r ysgolion wedi gwella yn unol â mesurau perfformiad cyn gweithredu ymhellach.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd amrywiol yn unol ag argymhellion adroddiad arolygu diwethaf Estyn. Nid yw wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a'r diffygion a nodwyd, yn enwedig y rhai sy'n delio â thrylwyredd anghyson yr her i bob ysgol a'r diffyg eglurder ynglŷn â'r modd y bydd trefniadau cyllid yn sicrhau gwerth gwell am arian.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr awdurdod lleol rôl effeithiol mewn partneriaethau strategol ym Mro Morgannwg. Trwy'r bwrdd gwasanaethau lleol, mae wedi adolygu ei strwythurau

partneriaeth yn llwyddiannus, gan ddwyn ynghyd y broses o gydlynu'r holl weithgarwch partneriaeth yn adran y Prif Weithredwr. Mae hyn wedi gwella cydweithio rhwng partneriaid ac wedi cynyddu'r ffocws ar flaenoriaethau a rennir.

Mae'r bartneriaeth plant a phobl ifanc a'r bartneriaeth dysgu a sgiliau yn adrodd yn rheolaidd wrth y bwrdd gwasanaethau lleol ac mae cysylltiadau cryf â'r partneriaethau strategol allweddol eraill. Fodd bynnag, nid adroddir yn rheolaidd am safonau mewn addysg wrth y bwrdd gwasanaethau lleol a'r bartneriaeth plant a phobl ifanc. Mae hyn yn golygu nad oes gan asiantaethau partner syniad clir ynglŷn â'r cynnydd a wna'r awdurdod â'i waith addysg na'r ffordd orau y gallant gyfrannu at wella safonau.

Gwnaed cynnydd da mewn gweithgarwch partneriaeth ac mae llawer o enghreifftiau o brosiectau amlasiantaethol llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, darpariaeth dda o ran dysgu ôl-14 sydd wedi gwella cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, a gwaith ataliol 'Teuluoedd yn Gyntaf'. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod drosolwg strategol ddigon da bob amser o ba mor dda y mae'r math hwn o weithgarwch yn effeithio ar ddysgu. Nid yw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid wedi bod yn ddigon effeithiol yn lleihau niferoedd y bobl ifanc 16 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).

Mae'r awdurdod yn cydnabod y diffygion hyn ac mae wedi mynd ati'n briodol i gomisiynu gwaith i nodi budd ei weithgarwch partneriaeth a ph'un a yw'n helpu i gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth gymunedol.

Caiff plant a phobl ifanc fanteisio ar ystod dda o wasanaethau cymorth ieuenctid. Fodd bynnag, mae partneriaid wedi bod yn rhy araf yn llunio strategaeth ar gyfer y maes gwaith hwn ac nid yw cydlynu effeithiol wedi cael ei yrru mewn modd digon strategol.

Mae cyfathrebu da ynghylch gweithgarwch partneriaeth. Mae cylchlythyr tîm partneriaeth corfforaethol defnyddiol ac mae perthnasoedd gyda'r sector gwirfoddol yn arbennig o dda. Fodd bynnag, mae'r ymgysylltu ag ysgolion yn gyfyngedig ac nid yw'r ymgysylltu â dinasyddion wedi'i ddatblygu ddigon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae rheolaeth ariannol ar gyfer addysg yn dda ar y cyfan, ac mae swyddogion yn meddu ar wybodaeth dda am y sefyllfa ariannol, a chymerir camau addas o ganlyniad i fonitro'r gyllideb yn fisol. Fodd bynnag, nid yw pob tîm yn deall yn llawn beth yw'r holl risgiau ariannol a'r prosesau rheoli. Mae hyn yn golygu nad ydynt efallai bob amser yn dilyn y prosesau priodol i sicrhau atebolrwydd da. Caiff aelodau etholedig eu cynnwys yn briodol yn y broses pennu cyllideb, ac maent yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd.

Mae darpariaeth dda o ran cymorth ariannol i ysgolion. Mae'r awdurdod yn monitro ac yn herio diffygion a gweddillion cyllideb ysgolion yn dda. Fodd bynnag, mae gweddillion sylweddol yn parhau mewn nifer fach o ysgolion. Mae'r sefyllfa hon wedi gwella o sefyllfa lle cafwyd cronfeydd ysgol uchel iawn yn 2010-2011 i ychydig

uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn 2011-2012, ac mae'r awdurdod yn rhagweld rhagor o ostyngiadau yn ystod 2013-2014 wrth i ysgolion gyflawni eu camau arfaethedig.

Dengys ffigurau Llywodraeth Cymru mai'r cyfraddau dirprwyo yw'r uchaf yng Nghymru o hyd, ac mae'r awdurdod yn ystyried opsiynau i gynyddu dirprwyo ymhellach. Mae'r fforwm cyllideb ysgolion yn adolygu elfennau o fformiwlâu cyllid ysgolion bob blwyddyn, gan felly sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r adolygu rheolaidd hwn yn arfer dda.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dewis prynu ystod o wasanaethau cymorth corfforaethol, ac mae ysgolion wedi arfarnu bod ansawdd y rhain yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod bob amser yn gwybod beth yw cost darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer ysgolion.

Mae dull yr awdurdod o arfarnu deilliannau gwasanaethau a mentrau yn anghyson ac nid yw ei ansawdd bob amser yn dda. Nid oes ganddo systemau trylwyr i lunio barnau ar werth am arian ei ddarpariaeth. Fodd bynnag, o ystyried lefel gymharol isel y gwariant o fewn y gyllideb addysg a'r deilliannau digonol ar y cyfan, mae'r gwasanaeth addysg yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Farrukh Khan | Arolygydd Cofnodol |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Robert Davies | Arolygydd Tîm |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Karen Lees | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gareth Morgans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynette Jones | Enwebai |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.